

# Agenda – Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

---

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
Ystafell Bwyllgora 5 – Tŷ Hywel **Robert Donovan**  
a fideogynadledda drwy Zoom Clerc y Pwyllgor  
Dyddiad: Dydd Mercher, 24 Ebrill 2024 0300 200 6565  
Amser: 09.30 [SeneddEconomi@senedd.cymru](mailto:SeneddEconomi@senedd.cymru)

## Hybrid

---

### Rhag-gyfarfod preifat

(09.15–09.30)

### Cyfarfod cyhoeddus

(09.30–12.00)

**1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**  
(09.30)

**2 Papurau i'w nodi**  
(09.30)

**2.1 Rheoliadau'r Amgylchedd a Materion Gwledig (Dirymu a Darpariaeth Ganlyniadol) 2024**

(Tudalennau 1 – 2)

#### Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd –  
15 Mawrth 2024



## **2.2 Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol (Iechyd a Diogelwch) (Diwygio a Darpariaethau Trosiannol etc.) 2024**

(Tudalennau 3 – 4)

### **Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd – 18 Mawrth 2024

## **2.3 Ardaloedd Draenio**

(Tudalennau 5 – 14)

### **Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd – 19 Mawrth 2024

Llythyr gan Cyfoeth Naturiol Cymru – 21 Mawrth 2024

Llythyr gan Undeb Amaethwyr Cymru – 22 Mawrth 2024 (Saesneg yn unig)

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg – 08 Ebrill 2024

## **2.4 Dyfodol Dur Cymru – Tata Steel UK**

(Tudalennau 15 – 23)

### **Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd Tata Steel UK – 19 Mawrth 2024

Llythyr gan Tata Steel ynghylch Ffyrnau Golosg Morfa – 06 Ebrill 2024  
(Saesneg yn unig)

Llythyr gan y Cadeirydd at Carwyn Jones – 21 Mawrth 2024

Llythyr gan y Cadeirydd at Carwyn Jones – 15 Ebrill 2024

Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Gwladol dros Fusnes a Masnach – 21 Mawrth 2024

## **2.5 Sesiwn gyffredinol i graffu ar waith y Gweinidog – 6 Mawrth 2024: Gwaith dilynol**

(Tudalennau 24 – 26)

### **Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru,  
a'r Trefnydd – 21 Mawrth 2024

## **2.6 Hybu Cig Cymru**

(Tudalennau 27 – 28)

### **Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a  
Materion Gwledig – 22 Mawrth 2024

## **2.7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru**

(Tudalennau 29 – 31)

### **Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid – 22 Mawrth 2024

## **2.8 Ymchwiliad i Fanc Datblygu Cymru: Gwybodaeth yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 21 Mawrth 2024**

(Tudalennau 32 – 33)

### **Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd i Fanc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban – 25 Mawrth  
2024

## **2.9 Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Diwygiadau Amrywiol) 2024**

(Tudalennau 34 – 35)

### **Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig  
– 18 Ebrill 2024

## **3 Ymchwiliad: Banc Datblygu Cymru: Panel 4 – Banc Datblygu Cymru**

(09.30–10.40)

(Tudalennau 36 – 52)

Gareth Bullock, Cadeirydd, Banc Datblygu Cymru

Giles Thorley, Prif Swyddog Gweithredol, Banc Datblygu Cymru  
Mike Owen, Cyfarwyddwr Buddsoddi Grŵp, Banc Datblygu Cymru  
Rhian Elston, Cyfarwyddwr Buddsoddi Cymru, Banc Datblygu Cymru

**Dogfennau atodol:**

Papur tystiolaeth – Banc Datblygu Cymru

**Egwyl**

(10.40–10.50)

**4 Ymchwiliad: Banc Datblygu Cymru: Panel 5 – Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg**

(10.50–12.00)

(Tudalennau 53 – 73)

Jeremy Miles AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg,  
Llywodraeth Cymru

Duncan Hamer – Cyfarwyddwr, Gweithrediadau – Busnes a Rhanbarthau,  
Llywodraeth Cymru

Jo Banks – Pennaeth Mynediad at Gyllid a'r Tîm Partneriaeth BDC,  
Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

Papur tystiolaeth – Llywodraeth Cymru

Briff Ymchwil

**5 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

(12.00)

**Preifat**

(12.00–12.30)

**6 Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod**

(12.00–12.10)

**7 Dyfodol Dur Cymru: Papur materion allweddol**

(12.10–12.25)

(Tudalennau 74 – 89)

**Dogfennau atodol:**

Dyfodol Dur Cymru: Papur materion allweddol (Saesneg yn unig)

**8 Y Broses Graffu ar y Gyllideb**

(12.25–12.30)

Lesley Griffiths AS/MS  
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd  
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Paul Davies AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN  
[SeneddEconomy@senedd.cymru](mailto:SeneddEconomy@senedd.cymru)

15 Mawrth 2024

Annwyl Paul,

Rwy'n cyfeirio at fy llythyr atoch dyddiedig 29 Chwefror 2024. Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Gweinidog Bioddiogelwch, Iechyd Anifeiliaid a Lles osod Rheoliadau'r Amgylchedd a Materion Gwledig (Dirymu a Darpariaeth Ganlyniadol) 2024 ("y Rheoliadau") mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld yma: [Datganiad Ysgrifenedig: Rheoliadau'r Amgylchedd a Materion Gwledig \(Dirymu a Darpariaeth Ganlyniadol\) 2024 \(15 Ionawr 2024\) | LLYW.CYMRU](#)

Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Mae'r Rheoliadau yn cwmpasu Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Roedd yr Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol a chafodd ei osod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ar 13 Mawrth 2024.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 1

Rwyf wedi ysgrifennu'n debyg at Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith a Huw Irranca-Davies MS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Yn gywir,

A handwritten signature in cursive script that reads "Lesley Griffiths".

**Lesley Griffiths AS/MS**  
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**  
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**



Paul Davies AS,  
Cadeirydd,  
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.  
Senedd Cymru

[SeneddDCC@senedd.cymru](mailto:SeneddDCC@senedd.cymru)

18 Mawrth 2024

Annwyl Paul,

Cyfeiriaf at fy llythyr atoch dyddiedig 5 Chwefror. Dymunaf hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi cydsynio i'r Ysgrifennydd Gwladol osod y Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol (Iechyd a Diogelwch) (Diwygio a Darpariaethau Trosiannol etc.) 2024 o ran Cymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld [sub-ld16411-w.pdf \(senedd.cymru\)](#)

Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Mae'r Rheoliadau yn cwmpasu Cymru, Lloegr a'r Alban.

Gwnaed y Rheoliadau drwy arfer y pwerau a ddirprwyir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Erthygl 85 ac Erthygl 83A(2) o Reoliad Cynhyrchion Bioleiddiadol (EU) Rhif 528/2012 Prydain Fawr (GB BPR) (addasu i gynnydd gwyddonol a thechnegol). Roedd yr Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol a chafodd ei osod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ar 13 Mawrth 2024. Y dyddiad cychwyn yw 06 Ebrill 2024.

Dim ond i'r Ysgrifennydd Gwladol y mae deddfwriaeth bresennol yn darparu pŵer i wneud rheoliadau ond mae gofyniad am gydsyniad, ac er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, yn yr achos hwn, ystyriwyd ei bod yn briodol i hanfod y diwygiadau fod yn gymwys i Gymru am fod y Rheoliadau yn dechnegol eu naws ac nad ydynt yn arwain at unrhyw newid o ran polisi. Nid oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn y mater hwn. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, nid oes darpariaeth sy'n caniatáu imi ddeddfu ar wahân i Gymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Rwyf wedi ysgrifennu llythyr tebyg at Huw Irranca - Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Yn gywir,

A handwritten signature in cursive script that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a dark ink and is positioned above the printed name and title.

**Lesley Griffiths AS/MS**

**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd  
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**



Paul Davies AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

19 Mawrth 2024

Annwyl Paul

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Chwefror yn ymwneud â'r gwaith pwysig a wnaed mewn Ardaloedd Draenio Mewnol, gan gynnwys amddiffyn tir amaethyddol cynhyrchiol ledled Cymru.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni holl swyddogaethau'r Bwrdd Draenio Mewnol yng Nghymru a hefyd yn rheoli risgiau o gyrsiau dŵr cyffredin, dŵr wyneb a dŵr daear yn yr ardaloedd draenio hynny. Mae hon yn swyddogaeth sefydledig; fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod heriau gan gynnwys hyfywedd cynaliadwyedd ar gyfer yr Ardaloedd Draenio Mewnol yn benodol yn sgil y newid yn yr hinsawdd.

Mae fy swyddogion a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod bod angen trafod ymarferoldeb ac effeithiolrwydd ehangach o ran amddiffynfeydd rhag llifogydd. Rhaid i fforddiadwyedd fod yn ystyriaeth a bydd yn cael ei drafod wrth ystyried ein hanghenion buddsoddi tymor hwy ar gyfer rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Oherwydd ymrwymïadau deddfwriaethol ehangach, nid yw'r cynllun arfaethedig a fyddai wedi newid ffiniau'r Ardal Ddraenio Fewnol ("IDD") wedi'i ddatblygu hyd yma. Mae hyn yn cael ei ystyried unwaith eto ac mae fy swyddogion mewn trafodaethau uniongyrchol â Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau y gellir ceisio datrysiaid i'r gwelliant rhagorol hwn.

Cofion

**Lesley Griffiths AS/MS**  
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**  
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Ardaloedd Draenio Mewnol yng Nghymru

### Ymateb CNC i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Senedd Cymru

**Mawrth 2024**

#### Gwybodaeth gefndir a chyd-destun

1. Mae rôl a phwrpas Byrddau Draenio Mewnol ac Ardaloedd Draenio Mewnol wedi'u diffinio yn Neddf Draenio Tir 1991. Prif ddiben Bwrdd Draenio Mewnol yw rheoli lefelau dŵr mewn ardal (yr Ardal Draenio Mewnol) lle mae angen draenio arbennig. Ardaloedd diffiniedig yw Ardaloedd Draenio Mewnol a “fydd yn cael budd, neu osgoi perygl, o ganlyniad i weithrediadau draenio” (Rhan 1, adran 1, isadran 1(a) o'r Ddeddf Draenio Tir). Mae gan Fyrddau Draenio Mewnol bwerau i “weithredu goruchwyliaeth gyffredinol dros yr holl faterion sy'n ymwneud â draenio tir o fewn eu hardal ddraenio” (Rhan 1, adran 1, isadran 2(a)). Mae Byrddau Draenio Mewnol hefyd yn Awdurdod Rheoli Risg o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, gyda chyfrifoldebau ar y cyd i reoli risgiau llifogydd ochr yn ochr ag Awdurdodau Rheoli Risg eraill.
2. Mae 13 Ardal Draenio Mewnol yng Nghymru (gweler Ffigur 1) a Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r unig Fwrdd Draenio Mewnol ar gyfer yr 13 Ardal Draenio Mewnol hyn.
3. Ariennir y gwaith draenio mewn Ardaloedd Draenio Mewnol trwy gyfuniad o ardrethi draenio ac ardollau arbennig. Tybir bod yr holl dir ac eiddo o fewn Ardal Ddraenio yn elwa ar weithgareddau Ardal Draenio Mewnol ac felly eu bod yn cyfrannu at y costau cynnal. Codir ardoll arbennig ar awdurdodau lleol gan y Bwrdd, sy'n gyfrannol i werth blynyddol tir anamaethyddol. Telir ardrethi draenio gan dirfeddianwyr, ffermwyr a thenantiaid yn gyfrannol i werth blynyddol tir amaethyddol. Mae praesept, fel yr amlinellir yn adran 141 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991, hefyd yn berthnasol, ac mae'n galluogi CNC i ofyn am gyfraniad gan Ardaloedd Draenio Mewnol ar gyfer gwaith sy'n hanfodol i'r Brif Afon o fewn Ardal Draenio Mewnol, gerllaw iddi, neu'n llifo ohoni neu iddi.
4. Rhan rôl CNC yw gosod ein praesept ar yr Ardaloedd Draenio Mewnol a chytuno ar yr ardollau arbennig a'r ardrethi draenio sydd eu hangen i ariannu gwaith yr Ardaloedd Draenio Mewnol. Bwrdd CNC, yn rôl y Bwrdd Draenio Mewnol, sy'n pennu'r ardrethi a'r ardollau.
5. Mae gennym ddau grŵp cyngori anweithredol ar gyfer Ardaloedd Draenio Mewnol Powys a Gwent. Mae Ardal Draenio Mewnol Gwent yn cynnwys Gwy Isaf a Chil-y-coed

a Gwynllŵg. Mae gennym bum grŵp cyngori anweithredol arall ar gyfer yr 11 ardal yng ngogledd-orllewin Cymru.

6. Diben grwpiau cyngori'r Ardaloedd Draenio Mewnol yw ymgysylltu â rhanddeiliaid a chwsmeriaid, gan ddarparu cyngor cynrychioliadol ac annibynnol i helpu i lywio penderfyniadau gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn ogystal, rhan o ddiben y saith grŵp cyngori yw argymhell ardrethi draenio ac ardollau arbennig i'w hystyried a'u cymeradwyo gan Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru.

### **Effeithiolrwydd presennol y gwaith a wneir o fewn Ardaloedd Draenio**

7. Yn ei rôl fel Bwrdd Draenio Mewnol, mae CNC yn ymgymryd â gweithgareddau gweithredol o fewn yr Ardaloedd Draenio Mewnol i gynnal cyrsiau dŵr ac adeileddau rheoli dŵr. Ariennir y gweithgareddau hyn o'r ardrethi a'r ardollau, gyda'r praesept yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith ar unrhyw Brif Afonydd dynodedig yn yr ardal. Gall CNC hefyd wneud gwaith sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd yn y lleoliadau hyn yn rhinwedd ei swydd fel Awdurdod Rheoli Risg.
8. Ymgymerir â'r gweithgareddau hyn yn unol â pholisïau a gweithdrefnau CNC sy'n berthnasol ym mhob lleoliad, gan roi ystyriaeth ddyledus i ofynion rheoleiddiol, amgylcheddol, iechyd a diogelwch, caffael a chyfrifyddu. Mae yna amserlenni gwaith sy'n cael eu dilyn, ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd.
9. Ar adegau, rydym yn derbyn adborth ar gyfer mwy o waith i'w wneud yn yr Ardaloedd Draenio Mewnol, ond mae'n rhaid i ni weithio o fewn y cyllidebau wedi'u neilltuo sydd ar gael (o'r ardrethi ac ardollau). Rydym yn adolygu'r costau yr ydym yn eu hadfer ar gyfer pob un o'r Ardaloedd Draenio Mewnol – rydym yn ymwybodol o fathau penodol o gostau o fewn rhai Ardaloedd Draenio Mewnol lle nad ydym yn adfer ein holl gostau, ac rydym yn bwriadu cyflwyno cynigion gerbron ein Bwrdd yn ystod y gaeaf nesaf i gywiro hynny. Mae'r ardrethi a'r ardollau dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn sefydlog yn bennaf, neu'n is na chyfraddau chwyddiant, ond rydym wedi cael rhai Ardaloedd Draenio Mewnol yn gwneud cais am ragor o waith gyda thalwyr taliadau yn fodlon talu drwy gynnydd uwch mewn ardollau ac ardrethi draenio. Mae costau ein gwaith yn anochel wedi cynyddu, ond ar yr un pryd mae'r ysgogwyr ar gyfer gwneud mwy o waith hefyd yn cynyddu (e.e. cyfraddau uwch ar gyfer glawiad, erydu ac ar adegau twf llystyfiant, i gyd oherwydd newid hinsawdd). Rydym am adolygu ein taliadau i sicrhau ein bod yn adennill costau llawn.
10. Cawsom adborth hefyd, ar adegau, fod ein 'cyfraddau uned' ar gyfer gwaith yn rhy ddrud, ond mae'n rhaid inni weithio i'r safonau a rheoliadau gofynnol, ac i reolau cyfrifyddu a chaffael.
11. Rydym yn croesawu adborth, ac rydym yn gweithio gyda'r grwpiau cyngori a thrwyddynt i wneud y gorau o'n darpariaeth, o fewn y cyllidebau sydd ar gael ac o fewn cylch gorchwyl y Byrddau Draenio Mewnol / Ardaloedd Draenio Mewnol.


## Cynaliadwyedd y dull Ardaloedd Draenio yn y tymor hir

12. Mae'r dystiolaeth ar gyfer cynhesu byd-eang ac effeithiau ein hinsawdd sy'n newid wedi'i dogfennu'n dda. Mae'r effeithiau ar draws y byd yn sylweddol, ac nid yw Cymru'n wahanol i unrhyw le arall o ran gweld yr effeithiau hyn yn awr, gyda rhagolygon am ddigwyddiadau tywydd eithafol amlach i ddod. Mae ardaloedd isel (tua'r tir neu ar yr arfordir) yn arbennig o agored i'r effeithiau hyn, gan gynnwys erydiad a llifogydd amlach a mwy difrifol, ac (mewn ardaloedd arfordirol/llanw) cynnydd yn lefel y môr. Mae maint a graddfa effeithiau newid hinsawdd yn ei gwneud hi'n amhosib disgwyl gallu cadw'r sefyllfa bresennol ym mhobman, a dal y grymoedd naturiol hyn yn ôl. Hyd yn oed pe gallem, bydd y costau o wneud hynny yn enfawr.
13. Mae'n ofynnol i CNC ddilyn rheolau buddsoddi Trysorlys y DU, gan gynnwys wrth ddatblygu ei waith rheoli perygl llifogydd. Mae hyn yn golygu bod angen i'n hymyriadau rheoli perygl llifogydd fod yn gost-fuddiol yn economaidd. Mae rheolau buddsoddi'r llywodraeth yn golygu bod y buddion yn cael eu prisio'n bennaf mewn difrod economaidd i eiddo sy'n cael ei osgoi. Mae'n dilyn bod lleoliadau heb fawr o eiddo neu ddim ond ychydig o eiddo a fyddai'n elwa o waith rheoli perygl llifogydd â chost-fuddiant isel, ac mewn llawer o achosion mae'r costau'n gorbwyso'r buddion, sy'n golygu nad oes modd cyfiawnhau buddsoddiad yn economaidd.
14. Mae angen inni hefyd ddilyn gofynion y llywodraeth ar flaenoriaethu ein gwaith. Mae'n ofynnol i ni weithio ar sail risg wedi'i blaenoriaethu, gyda pherygl llifogydd yn cael ei reoli gan y perygl i eiddo. Mae hyn yn golygu y bydd ein hymyriadau'n cael eu blaenoriaethu i'r lleoliadau sydd â'r lefelau mwyaf o risg, wedi'u dylanwadu'n drwm gan nifer yr eiddo sydd mewn perygl. Mae'r gyllideb sydd ar gael yn ffactor sy'n cyfyngu ar yr hyn sy'n fforddiadwy, sy'n golygu efallai na fydd ymyriadau mewn lleoliadau â chost-fuddiant is yn symud ymlaen, ar sail fforddiadwyedd a blaenoriaethu.
15. Gyda'i gilydd, mae'r ystyriaethau economaidd a fforddiadwyedd hyn yn golygu bod ardaloedd lle nad oes llawer o eiddo neu ddim eiddo yn elwa â blaenoriaeth is ar gyfer buddsoddiad. Mae hyn yn anochel yn golygu bod ardaloedd gwledig yn llai tebygol o dderbyn buddsoddiad rheoli perygl llifogydd. Os caiff cyllidebau eu cyfyngu ymhellach, yna bydd angen i ni flaenoriaethu lleoliadau risg uwch yn fwyfwy. Mae ein gwaith Gofynion Buddsoddi Hirdymor a gyhoeddwyd yn ddiweddar wedi tynnu sylw at yr heriau buddsoddi sydd o'n blaenau – gweler [Cyfoeth Naturiol Cymru / Gofynion Buddsoddi Hirdymor ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd](#).
16. Dangosir lleoliad yr 13 Ardal Draenio Mewnol yn Ffigur 1. Er eu bod yn aml yn ardaloedd tir amaethyddol hanesyddol bwysig, maent yn nodweddiadol ar dir gwastad isel, wrth ymyl afon a/neu'r môr. Maent felly mewn lleoliadau sy'n arbennig o agored i effeithiau newid hinsawdd, e.e. llifogydd, erydu a/neu (mewn ardaloedd arfordirol/llanw) cynnydd yn lefel y môr. Yn nodweddiadol, bydd ganddynt hefyd lai o eiddo ynddynt, ac

yn llai tebygol o gael eu blaenoriaethu ar gyfer buddsoddiad (gweler y paragraffau uchod). Mae'r ddau ffactor hyn yn anochel yn golygu bod cynaliadwyedd yr ardaloedd hyn yn y tymor canolig i'r hirdymor felly yn ansicr; byddai angen buddsoddiad sylweddol i atal effeithiau newid hinsawdd, ac nid yw buddsoddiad yn debygol o gael ei flaenoriaethu o dan reolau presennol y llywodraeth.

17. Mae'n dilyn wedyn y bydd angen i'r Ardaloedd Draenio Mewnol hyn, fel llawer o leoliadau ledled Cymru a thu hwnt, addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Mae'n codi amheuaeth ynghylch ymarferoldeb parhau i ganolbwyntio ar ddraenio yn yr ardaloedd hyn, ac amddiffyn yr ardaloedd hyn rhag llifogydd. Maent hefyd yn aml mewn ardaloedd amgylcheddol dynodedig neu sensitif, y mae angen eu hystyried a'u rheoli'n ofalus.
18. Yn yr un modd, nid ydym yn dweud bod yr ardaloedd hyn i gael eu gadael, heb unrhyw fuddsoddiad. Nid ydym ychwaith yn dweud ein bod yn dod i'r casgliad nad yw'n ymarferol parhau â gweithgareddau draenio. Ond ni allwn dybio mai'r dull cywir yw cynnal y sefyllfa bresennol. Rydym o'r farn y dylid cynnal adolygiad o ddiben a rôl Byrddau Draenio Mewnol / Ardaloedd Draenio Mewnol, a'r model gweithredu, a byddem yn fodlon chwarae ein rhan mewn adolygiad o'r fath ochr yn ochr â'r holl randdeiliaid. Mae hyn yn cyd-fynd â'r angen i adolygu'n barhaus ein hymatebion rheoli perygl llifogydd cyfunol a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol ym mhob rhan o Gymru, ac nid dim ond yn yr Ardaloedd Draenio Mewnol, wrth i ni ymateb i'r heriau sylweddol o'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Ffigur 1: Lleoliad Ardaloedd Draenio Mewnol yng Nghymru (sylwch fod ardaloedd Cil-y-coed a Gwynllŵg a Gwy Isaf yn un Ardal Draenio Mewnol – sef Ardal Draenio Mewnol Gwent)





Paul Davies MS

Chair Economy, Trade and Rural Affairs Committee

Senedd Cymru

Bae Caerdydd

CF99 1SN

22/03/2024

Dear Paul,

Thank you for your correspondence enquiring our views on the current effectiveness of operations within Drainage Districts in Wales. Please find our response below;

Feedback from our members that farm in and around Internal Drainage Districts (I.D.D) state the current management of drainage districts, which lies with Natural Resources Wales (NRW) is unacceptable and distressing for many.

As mentioned in your letter, the health of I.D.D are important to maintain the productivity and fertility of agricultural land across Wales, therefore the effectiveness of their management is vital. However, due to the recent poor management, long-periods of flooding is now a common sight in these areas resulting in decreasing biodiversity and reduced agricultural productivity. In addition, overgrown weeds and collapsed ditches that block water flow are a consequence of the lack of maintenance of I.D.D's, the resulting effects can be seen at locations like the Aber Dysynni, where water levels are unable to return to their intended state which prevents wading birds from foraging.

NRW have not been commencing maintenance work on the I.D.D until much later in the season, as late as November. It is felt that I.D.D management should start sooner in the calendar year due to seasonal wet weather during the Autumn months resulting in severe damage to the land and soil structure. The difficult working conditions pose a barrier to maintenance completion with ditches being left without being cleared.

It was also highlighted that NRW should be using appropriate sized machinery for the conditionals at specific locations. Members commented that large heavy machinery was used to undertake maintenance work on an I.D.D which caused unnecessary damage to land in that area.

Members who farm on the Malltraeth I.D.D, Ynys Môn, have extreme concerns on a breach in an embankment since 2017, meaning part of the I.D.D is under water for the majority of the year. There is no funding available to restore the embankment and farmers have been refused the licence to repair the breach themselves. These members are frustrated with having to face increasing business costs due to purchasing additional forage as their silage fields are under water, even during the summer months.

---

**Undeb Amaethwyr Cymru** | Farmers' Union of Wales

Llys Amaeth, Plas Gogerddan, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BT  
01970 820820 | [post@fuw.org.uk](mailto:post@fuw.org.uk) | [www.fuw.org.uk](http://www.fuw.org.uk) **Tudalen y pecyn 11**

Mae FUW Limited wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr o dan rhif 10935716  
FUW Limited is registered in England & Wales no. 10935716



They, therefore, have to change their farming practices and potentially have to rent more land due to loss of productive land.

Moreover, the lack of management on I.D.D by NRW has negative impacts on local non-agricultural businesses like Clwb Gold Aberdyfi, who are forced to close areas golf courses due to flooding, once again losing potential earnings.

Regarding funding for the management of these I.D.D, FUW members are questioning the high administrative costs, compared with the insufficient amount spent on the I.D.D. themselves. Members felt that there is no value to be seen from the current funding and that funding intended to keep I.D.D'S in good condition is not being spent effectively.

The Land Drainage Act 1991 Section 14 declares that the duties of NRW with the management of I.D.D should include;

- to maintain existing works, that is to say, to cleanse, repair or otherwise maintain in a due state of efficiency any existing watercourse or drainage work
- to improve any existing works, that is to say, to deepen, widen, straighten or otherwise improve any existing watercourse or remove or alter mill dams, weirs or other obstructions to watercourses, or raise, widen or otherwise improve any existing drainage work;
- to construct new works, that is to say, to make any new watercourse or drainage work or erect any machinery or do any other act (other than an act referred to in paragraph (a) or (b) above) required for the drainage of any land.

Members felt strongly that NRW are currently neglecting their responsibilities in relation to The Land Drainage Act 1991 and facing no reprimand or consequences to their inaction, with the land-owners having to pay the price.

The land value of I.D.D in Wales is decreasing continuously with farmers having to deal with a constant drop in their profitability and land quality. Members clearly expressed their dissatisfaction on the management of this long standing issue and the inaction of NRW and unwillingness to co-work with land-owners to reach a practical solution to the situation.

FUW members have repeatedly called on NRW for better management for I.D.D. and communication with the land-owners stating that it is frustrating to report that there has been no direct meeting to discuss the dire situation of I.D.D since before the Covid-pandemic.

I trust due consideration will be given to the above comments and examples, I look forward to receiving any developments related to I.D.D.

Kind regards,

Elan Evans

Policy Officer

Farmers' Union of Wales

Huw Irranca-Davies AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Gubsawdd a Materion Gwledig

08 Ebrill 2024

Annwyl Huw

## Ardakiedd Draenio Mewnol

Ar 19 Mawrth, cefais ymateb gan y Gweinidog Materion Gwledig blaenorol i gais am wybodaeth am effeithiolrwydd a chynaliadwyedd y dull presennol o reoli ardaloedd draenio mewnol, ac a oedd cyllid a chapasiti'n ddigonol i gefnogi'r gwaith hwnnw. Hysbysais y Gweinidog fod y Pwyllgor hefyd yn ysgrifennu at Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, UAC ac CNC am eu barn hwy.

Roedd ymateb y Gweinidog yn fyr ac yn brin o fanylion ac amserlenni ar gyfer gweithredu. Nododd fod gwaith i newid ffiniau ardaloedd draenio mewnol wedi arafu oherwydd ymrwymadau deddfwriaethol eraill ond nad oedd yn mynd i'r afael â chynaliadwyedd parhaus cyfundrefn bresennol ardaloedd draenio mewnol. Mae'r ymatebion a gafwyd gan CNC ac UAC yn nodi bod materion sylweddol i'w datrys, gan gynnwys ynghylch gallu CNC i gyflawni'n effeithiol ei rôl fel Bwrdd Draenio Mewnol y 13 o ardaloedd draenio mewnol yng Nghymru. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn sgil newid hinsawdd a'r angen i warchod tir amaethyddol ffrwythlon a chynhyrchiol. Mae ymateb CNC yn galw am adolygiad:

*"Rydym o'r farn y dylid cynnal adolygiad o ddiben a rôl Byrddau Draenio Mewnol / Ardaloedd Draenio Mewnol, a'r model gweithredu, a byddem yn fodlon chwarae ein rhan mewn adolygiad o'r fath ochr yn ochr â'r holl randdeiliaid. Mae hyn yn cyd-fynd â'r angen i adolygu'n barhaus ein hymatebion rheoli perygl llifogydd cyfunol a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol ym mhob rhan o Gymru, ac nid dim ond yn yr Ardaloedd Draenio Mewnol, wrth i ni ymateb i'r heriau sylweddol o'r argyfyngau hinsawdd a natur."*

Atodir yr ymatebion a byddant yn cael eu cyhoeddi fel papurau i'w nodi yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 24 Ebrill. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn eu hadolygu ac yn rhoi esboniad mwy llawn i'r Pwyllgor o gynlluniau Llywodraeth Cymru yn hyn o beth, ac amserlenni clir ar gyfer rhagor o gamau. Gofynnwyd i'r Pwyllgor gynnal ymchwiliad i'r mater hwn, a hoffai gael ymateb llawnach gan Lywodraeth Cymru cyn bwrw ymlaen.



Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Cofion cynnes,

A handwritten signature in black ink that reads "Paul Davies". The signature is written in a cursive style with a large initial 'P' and a long, sweeping tail on the 's'.

Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Rajesh Nair  
Prif Weithredwr  
Tata Steel UK

19 Mawrth 2024

Annwyl Rajesh

## Ffyrnau Golosg Morfa

Rwy'n ysgrifennu ynghylch [cyhoeddiad](#) Tata Steel UK am roi'r gorau i weithrediadau yn Ffyrnau Golosg Morfa o ddydd Mercher 20 Mawrth o ganlyniad i ddirywiad sylweddol mewn sefydlogrwydd gweithredol. Fel rhan o waith parhaus y Pwyllgor ar ddyfodol dur Cymru, hoffwn ofyn am fanylion ac eglurhad pellach gennych chi. A allwch ymateb i'r pwyntiau canlynol os gwelwch yn dda?

- Mae'r wasg yn adrodd y bydd tua 200 o weithwyr yn cael eu heffeithio. Ydy'r rhif hwnnw'n gywir? A allwch ddweud wrthym a fydd y gweithlu a gyflogir yn y ffyrnau golosg a'r ffatri sgil-gynhyrchion gerllaw yn cael eu hadleoli i rolau eraill, ac a fydd lle iddynt gael eu cyflogi i ddadgomisiynu'r ffyrnau golosg?
- A allwch gadarnhau y bydd Tata nawr yn mewnforio golosg i gefnogi ffwrnais chwyth 5 ac, os felly, am ba hyd rydych chi'n rhagweld mewnforio golosg? Sut rydych chi'n disgwyl i'r datblygiad hwn effeithio ar weithrediad ffwrnais chwyth 5?
- A allwch chi gadarnhau eich amserlenni disgwylidig ar gyfer dod â gweithrediadau i ben yn y ffatri sgil-gynhyrchion sydd gerllaw y ffyrnau golosg?
- Mae'r undebau wedi dweud, er eu bod yn ymwybodol bod y ffyrnau golosg mewn cyflwr gwael, nad oedd Tata wedi dweud mewn trafodaethau diweddar eu bod mewn perygl o gau'n fuan. Mae Unite hefyd yn [honni](#) bod Tata wedi dweud wrth yr undebau yn ddiweddar ei fod yn gobeithio cynyddu eu capasiti yn y dyfodol agos. Sut y byddech chi'n ymateb i'r pwyntiau hyn?
- Mae Tata wedi dweud y bydd y ffyrnau golosg yn cau oherwydd pryderon am eu sefydlogrwydd gweithredol. A allwch chi ddweud wrthym pa rôl roedd ystyriaethau iechyd a diogelwch yn ei chwarae yn eich penderfyniad i gau'r ffyrnau golosg, ar ôl i'r rhain gael eu [codi](#) gan yr undebau yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 29 Chwefror?

- Sut y byddech chi'n ymateb i'r [sylwadau](#) gan yr undeb Unite yn ein sesiwn dystiolaeth gyda'r undeb ar 29 Chwefror mai'r diffyg buddsoddiad yn y ffyrnau golosg, dros y 15 mlynedd diwethaf, sydd wedi arwain at ei ddirywiad i'r sefyllfa fel y mae nawr?

Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Mr. Rajesh Nair  
Chief Executive Officer  
Tata Steel UK Ltd  
Port Talbot  
SA13 2NG

Paul Davies MS  
Chair, Senedd Economy, Trade & Rural Affairs Committee  
Welsh Parliament  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

6 April 2024

Dear Mr Davies,

Thank you for your letter dated 19 March regarding Tata Steel UK's decision to cease operations of the Morfa Coke Ovens on 20 March. Apologies for the delay in responding to you.

The performance of the coke ovens had been deteriorating over many months, despite the best efforts by our workforce to maintain operational stability. Last month, the condition of the ovens worsened to a level making continued operation untenable. It was a sad moment and one which the business did not take lightly.

I have addressed the questions posed in your letter individually below:

**The press reports around 200 workers will be affected. Is that number correct? Can you tell us whether the workforce employed in the coking ovens and adjoining By-Products plant will be redeployed to other roles, and whether there will be scope for them to be employed to decommission the coke ovens?** Overall, 208 people have been affected by the closure of the Coke Ovens. All impacted staff have been either retained in the By-Products Plant, engaged in decommissioning or seconded into roles in Coke Sinter and Iron, Steel and Slab, Hot Rolled Products, Fire and Rescue, Energy or Stores.

We have now begun the voluntary redundancy aspiration process for Coke, Sinter and Iron, and will have further updates in due course.

**Can you confirm that Tata will now import coke to support blast furnace 5, and if so how long do you anticipate importing coke for? How do you expect this development to impact on the operation of blast furnace 5?** Tata Steel has been importing coke to underpin our operations for some time due to the operational challenges of maintaining our Coke Ovens. The business is working hard to secure sufficient coke to ensure continued operation of both blast furnaces to our proposed timelines and are confident that this will be achieved. To date, we have secured 280kt of imported coke during the first quarter of FY25 (Apr-June). For Q2 we have secured 50kt, with a further 70kt in progress.

**Mr Rajesh Nair, Chief Executive Officer, Tata Steel UK**

Port Talbot Works, Port Talbot SA13 2NG

T: +44 (0)1623 71111 • Email: [rajesh.nair@tatasteeleurope.com](mailto:rajesh.nair@tatasteeleurope.com)

Tudalen y pecyn 17  
Tata Steel UK Limited • 18 Grosvenor Place • London SW1X 7HS • Registered in England No. 2280000

Sensitivity: General

**Can you confirm your expected timescales for ceasing operations at the By-Products plant which adjoins the coking ovens?** The gas driven off the coal during the coking process is cooled, cleaned and stored at the By-products plant, ahead of being either reused or sold. Clean gas is recycled within the site as fuel for heat or electricity production. Given the nature of this process, and the value of the gasses stored, we expect the By-Products plant to continue operating for around three-months, following the closure of the Coke Ovens. The estimated closure is mid-June 2024, but this is subject to change.

**The unions have said that while they were aware the coking ovens were in a state of disrepair, Tata had not indicated in recent discussions that they were at risk of imminent closure. Unite also claims that Tata had recently “told the unions that it hoped to increase their capacity in the near future”. How would you respond to these points?** We have been in regular dialogue with the trade unions over several months about the critical operating condition of the Morfa Coke Ovens and provided frequent updates. Members of the UK Steel Committee visited the Coke Ovens on 6 March to see the condition of the asset for themselves and have been informed about the risk of premature closure. Tata Steel UK did not discuss increasing Coke Oven capacity with the UK Steel Committee as part of our ongoing dialogue.

The situation at the Morfa Coke Ovens was fast moving. The Ovens had been facing significant operational challenges for a long time and on Monday 18 March, following a drop down to 25 of 84 ovens, a decision had to be made. There was increasing concern regarding the safety of the assets which had to be a priority. As previously noted, this was not a decision that we took lightly – but was ultimately the right one.


**Tata has said the coke ovens will close due to concerns around their operational stability. Can you tell us what role health and safety considerations played in your decision to close the coking ovens, following these being raised by the unions at the Committee’s meeting on 29 February?** The operational challenges at the Coke Ovens meant that health and safety concerns increased. By dropping to 25 ovens, we breached the gas main integrity and caused multiple by-product trips with increased safety risks. Tata Steel has been clear that health and safety is an absolute priority – and we took the decision to cease operations, following operational challenges, before health and safety became a significant risk.

**How would you respond to the comments by the Unite union in our evidence session with them on 29 February that “it’s been the lack of investment, over the last 15 years, in the coke ovens that has led it to deteriorate to the situation it is”?** Tata Steel has invested £4.7 billion in the UK business since 2007. This investment has been across our sites and assets. We did not take the decision to close the asset lightly, but ultimately the continued operation became untenable, not as a result of a lack of investment but due to the nature and age of the asset.

I hope the above has sufficiently answered your queries. If we can be of any further help to the Committee please do not hesitate to get back in touch.

We appreciate the ongoing engagement with yourself and Committee members.

Yours sincerely,



Rajesh Nair

Mr Rajesh Nair, Chief Executive Officer, Tata Steel UK

Port Talbot Works, Port Talbot SA13 2NG

T: +44 (0) 1639 671411 • Email: [rajesh.nair@tatasteeleurope.com](mailto:rajesh.nair@tatasteeleurope.com)

Tata Steel UK Limited • 18 Grosvenor Place • London SW1X 7HS • Registered in England No. 2280000

Sensitivity: General

Carwyn Jones

21 Mawrth 2024

**Dyfodol Dur yng Nghymru – Craffu gan y Pwyllgor**

Annwyl Carwyn,

Ysgrifennaf atoch mewn perthynas â gwaith parhaus y Pwyllgor ar ddyfodol dur yng Nghymru. Yn dilyn cyhoeddiad Tata ym mis Ionawr o'u bwriad i gau'r ffwrneisi chwyth ym Mhort Talbot, mae effaith colli swyddi ar y gweithwyr, y gymuned ac economi ehangach Cymru wedi bod yn flaenllaw ym meddyliau'r Aelodau, ac yn uchel ar agenda'r Pwyllgor.

Fel rhan o'n trafodaethau preifat ar y mater rydym wedi edrych yn ôl ar sut y gwnaeth Llywodraeth Cymru ymdrin â'r argyfwng dur yn 2016, gan gynnwys eich dull personol o ymgysylltu â Tata Steel yng Nghymru ac India. Byddai gennym ddiddordeb mawr mewn clywed eich barn ar y sefyllfa bresennol; yn enwedig os oes gennych unrhyw safbwyntiau personol neu wersi a ddysgwyd o 2016 y teimluch y byddent yn berthnasol wrth ymdrin â'r argyfwng presennol.

Byddai'r Pwyllgor, a fydd yn cyfarfod nesaf ddydd Mercher 24 Ebrill, yn gwerthfawrogi'n fawr pe baech yn fodlon rhannu eich barn ar hyn yn ysgrifenedig.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg





Carwyn Jones

15 Ebrill 2024

Annwyl Carwyn

## **Dyfodol Dur yng Nghymru – Craffu gan y Pwyllgor**

Diolch am eich ymateb a'r cynnig i ateb cwestiynau penodol neu i ddod i'r Pwyllgor. Fel y byddwch yn gwerthfawrogi, mae'r Pwyllgor ar hyn o bryd yn gweithio i amserlenni tynn ar y mater hwn, felly byddwn yn ddiolchgar pe gallech ein cynorthwyo yn ein gwaith drwy ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r cwestiynau isod.

A oedd unrhyw ddulliau gweithredu oedd yn arbennig o effeithiol, yn eich barn chi, wrth arwain gwaith ymgysylltu Llywodraeth Cymru â Tata yn ystod eich cyfnod fel Prif Weinidog, yn enwedig yn argyfwng 2016?

Nododd yr Aelodau eich bod, yn ystod yr argyfwng diwethaf, wedi blaenoriaethu ymweld â phencadlys Tata ym Mumbai. Pa effaith rydych chi'n deimlo y cafodd hyn ar ddull gweithredu Tata a'r penderfyniadau a wnaeth? A oes unrhyw beth o'ch dull gweithredu chi y gallai Llywodraeth Cymru ei chymhwyso i'r sefyllfa bresennol, gan gynnwys unrhyw ffyrdd y gallai wneud y gorau o'r cyfleoedd sy'n deillio o flwyddyn Cymru yn India?

A oes unrhyw wersi y gellid eu dysgu o ddulliau gweithredu Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru o gydweithio yn argyfwng 2016 y gellid eu cymhwyso i'r sefyllfa bresennol?

Rwy'n ymwybodol mai dyma'r ail argyfwng ariannol difrifol y mae gwaith Tata ym Mhort Talbot, a'r gweithfeydd cysylltiedig, wedi ei wynebu mewn degawd. O gofio eich profiad yn 2016, a ydych chi'n credu bod y cynigion presennol yn addas ar gyfer y dyfodol neu a ydych yn rhagweld y bydd angen cefnogaeth sylweddol pellach ar Tata, gan bwrs y wlad, ar gyfer ei weithrediadau yn Ne Cymru?

Fel y gwyddoch, sefydlwyd Bwrdd Pontio i gefnogi'r bobl, y busnesau a'r cymunedau y mae cynigion Tata yn effeithio arnynt. A oes gennych unrhyw farn ar ba gamau y dylai'r Bwrdd eu blaenoriaethu a sut y gellir cyflawni proses bontio deg?



Byddai gennyf ddiddordeb mawr hefyd mewn unrhyw wersi eraill a ddysgwyd o ymdrin â'r sefyllfa yn 2016 y credwch allai fod yn berthnasol heddiw, neu unrhyw farn arall sydd gennych am ddyfodol Dur Cymru a'r trawsnewid.

Diolch unwaith eto am eich cynnig i helpu gyda'r ymchwiliad hwn. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i adrodd ar y mater brys hwn cyn gynted â phosibl, a fydddech chi'n gallu ymateb erbyn 1 Mai? Bydd hyn hefyd yn ein galluogi i gyhoeddi eich ymateb mewn papurau ar gyfer ein cyfarfod arfaethedig ar 9 Mai.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

Nusrat Ghani AS

Gweinidog Gwladol dros Fusnes a Masnach

Yr Adran dros Fusnes a Masnach

21 Mawrth 2024

## Tata Steel – ystyried polisiau i sicrhau cyflenwad dur sgrap

Annwyl Weinidog,

Yn ei gyfarfod ar 14 Mawrth, cymherodd y Pwyllgor dystiolaeth gan David TC Davies AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ar ddyfodol dur Cymru. Yn ystod y sesiwn, mewn perthynas â chynlluniau at y dyfodol ar gyfer ffwrnais arc trydan ym Mhort Talbot, fe'i holwyd ynghylch y defnydd posibl o ddur sgrap dros ben o'r DU yn ffwrnais arc trydan arfaethedig Tata.

Bu galwadau ar i Lywodraeth y DU ddatblygu polisiau i sicrhau cyflenwad digonol o ddur sgrap domestig i'w ddefnyddio gan wneuthurwyr dur y DU yng nghyd-destun galw cynyddol posibl yn y dyfodol. Pan ofynnwyd iddo pa drafodaethau y mae Llywodraeth y DU wedi'u cael ar y mater hwn, awgrymodd yr Ysgrifennydd Gwladol ein bod yn ysgrifennu at yr Adran dros Fusnes a Masnach i ofyn am ragor o fanylion.

Byddwn yn ddiolchgar felly pe gallech ddweud mwy wrthym am y trafodaethau sydd wedi'u cynnal, a pha ystyriaeth a roddwyd i ddatblygu polisiau i sicrhau dur sgrap domestig digonol i'w ddefnyddio gan wneuthurwyr dur yn y DU.

Mae'r Pwyllgor wedi bod yn blaenoriaethu gwaith craffu ar ddatblygiadau sy'n mynd rhagddynt yn Tata Steel oherwydd y goblygiadau enbyd i'r gweithwyr, y gymuned ac economi ehangach Cymru. Edrychwn ymlaen at eich ymateb.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Lesley Griffiths AS  
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd  
Cymru, a'r Trefnydd

21 Mawrth 2024

Gwaith dilynol ar waith craffu Gweinidogol cyffredinol ar 6 Mawrth 2024 – Safonau Gofynnol  
Cenedlaethol a chamau nesaf y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Annwyl Weinidog,

Diolch am roi o'ch amser i ateb cwestiynau'r Aelodau ddydd Mercher 6 Mawrth. Rwy'n ysgrifennu i ofyn am ragor o eglurhad gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am Faterion Gwledig am yr atebion a roddwyd ynghylch y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a chymorth amaethyddol yn y dyfodol o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

### Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r 'llinell sylfaen reoleiddiol'

Yn y Papur Gwyn ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru) a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020, dywedoch chi eich bod yn bwriadu cydgrynhoi'r rheolau presennol, gan gynnwys trawsgydymffurfio, i ffurfio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Wrth ymateb i ganlyniadau'r ymgynghoriad, dywedoch y "bydd angen gwneud rhagor o waith ar ddatblygu cynigion y Safonau, gan gynnwys edrych ar opsiynau deddfwriaethol a rhai nad ydynt yn ddeddfwriaethol i wireddu ein huchelgeisiau".

Yn ystod Cyfnod 2 y broses graffu ar gyfer y Bil, a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2022, dywedoch chi fod Llywodraeth Cymru yn ystyried yr angen am ddeddfwriaeth i gydgrynhoi rheolau a chadarnhau'r llinell sylfaen reoleiddiol. Ni chafodd deddfwriaeth ei dwyn ymlaen, ac yn ein cyfarfod ar 6 Mawrth, dywedoch chi wrth y Pwyllgor fod y rheolau ar wefan Llywodraeth Cymru a'u bod yn cynnwys trawsgydymffurfio – gan gydymffurfio â gofynion rheoli statudol, a fyddai'n gymwys p'un a yw ffermwr yn cael cymorth Cynllun y Taliad Sylfaenol ai peidio, a'r amodau cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da, sydd ond yn gymwys i ffermwyr sy'n cael cymorth ar hyn o bryd. Dywedoch chi:



*"the regulatory baseline for agriculture, which is what we refer to as NMS, already exists, and what that does is establish the minimum requirements every farmer must comply with and the associated criminal offences for any serious contraventions. So, as I say, that's already there; it's not part of the consultation. Obviously, NMS, or the regulatory baseline, is kept under review, and if there are any changes required—agricultural pollution regulations is an example—we always, obviously, consult before we bring them in."*

Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi rhagor o eglurder ynghylch a fyddai ffermwr nad yw'n tanysgrifio i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dal i orfod cymhwyso amodau cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da ai peidio, hy a yw'r llinell sylfaen reoleiddiol yr un peth ar gyfer ffermwyr sy'n aros y tu allan i'r cynllun?

Mae disgwyliadau rhanddeiliaid ynghylch set gyfunol newydd o safonau, boed yn statudol neu fel arall, wedi'u codi yn ystod ymgynghoriadau diweddar, ac mae rhanddeiliaid o bob cwr wedi galw am eu rhoi ar waith. Mae maint y protestiadau diweddar gan ffermwyr hefyd yn tanlinellu'r angen i sicrhau bod y sector yn llwyr ddeall dull gweithredu Llywodraeth Cymru. O ystyried bod Llywodraeth Cymru bellach wedi mabwysiadu safbwynt am yr hyn y mae 'Safonau Gofynnol Cenedlaethol' a'r 'llinell sylfaen reoleiddiol' yn ei olygu, byddai'n ddefnyddiol felly pe gallech egluro sut yr ydych yn bwriadu cyfleu hynny'n glir i'r holl rhanddeiliaid.

### **Argymhellion Pwyllgor Newid Hinsawdd y (UKCCC) a'r rhesymeg dros y targed gorchudd coed o 10 y cant**

Roedd adroddiad cynnydd Pwyllgor y Deyrnas Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd yn 2023: Lleihau allyriadau yng Nghymru yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

*"Maintain and enhance incentives to support agroforestry and hedgerows in the Welsh farmed landscape over the transition to the new post-CAP framework. Plant trees on 2% of farmland by 2025 while maintaining its primary use, rising to 5% by 2035, and extend hedgerows by 20% by 2035 and better manage existing hedgerows."*

Yn dilyn protestiadau diweddar gan ffermwyr, gwnaethoch chi ddatganiad ar y cyd â'r Prif Weinidog ar 27 Chwefror yn nodi rhai camau nesaf posibl, gan gynnwys:

*"Sicrhau bod y gweithredoedd yn yr SFS yn cael eu targedu'n briodol i wneud ffermydd cyn gryfed yn economaidd â phosibl. Mae hyn yn cynnwys sicrhau nad yw'r gofyn am goetiroedd a chynefinoedd yn gwneud ffermydd yn ariannol aflwyddiannus."*

Gofynnwyd i chi yn y Pwyllgor pam yr oedd Llywodraeth Cymru wedi gosod targed gorchudd coed o 10 y cant ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy pan oedd UKCCC yn argymhell 5 y cant erbyn 2035.

Mewn ymateb, cyfeirioch chi at ofyniad am 43,000 hectar o goetir newydd erbyn 2030 ond hefyd at dargedau eraill a osodwyd gan UKCCC ar gyfer 2035, gan gynnwys cynnydd mewn cyfraddau plannu coed blynyddol o 4,500 hectar y flwyddyn o leiaf erbyn 2030 i 7,500 hectar erbyn 2035, i amaeth-goedwigaeth blannu coed ar ddau y cant o dir fferm erbyn 2035, ac i ymestyn perthi erbyn 2035. Yng ngoleuni faint o bryder ac aflonyddwch sydd yn y sector ffermio ynghylch y targed gorchudd coed, byddai'n ddefnyddiol pe gallech nodi'n fanwl y rhesymeg dros y targed gorchudd coed o 10 y cant i ffermwyr sy'n deillio o'r gwahanol argymhellion hyn gan UKCCC.

## **Adolygu'r broses ymgynghori a'r camau nesaf**

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgynghori ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ers blynyddoedd, gan gynnal ymarferion cydlunio a sefydlu gweithgorau arbenigol. Er gwaethaf cymaint o waith ymgysylltu, rydym wedi gweld protestiadau cryf gan ffermwyr, ac felly beth yn eich barn chi sydd wedi methu o ran y broses a sut ydych chi'n meddwl y gellir unioni hyn wrth symud ymlaen?

Cafwyd trafodaeth ddi-flewyn-ar-dafod yn y Pwyllgor ynghylch y posibilrwydd o oedi cyn cyflwyno'r cynllun yn 2025, gan ichi bwysleisio dro ar ôl tro pa mor bwysig yw gwneud pethau'n iawn. Beth fyddai goblygiadau peidio â chyflwyno'r cynllun yn 2025 – o ran busnesau fferm ond hefyd yr amgylchedd, o ystyried ymrwymïadau sero net a bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru?

O ystyried y bydd modelu economaidd 'mwy ystyrion' pellach gyda set wahanol o ragdybiaethau, a'ch bod wedi dweud yn bendant y bydd angen newidiadau i'r cynllun, a allwn ni ddisgwyl gweld ymgynghoriad pellach yn cael ei gynnal, ac os felly a allwch chi ddarparu manylion ynghylch sut a phryd yr ydych yn disgwyl i hyn ddigwydd?

Disgwylir hefyd y bydd gwaith ymgysylltu pellach yn digwydd gyda grwpiau arbenigol, er enghraifft drwy'r gweithgor tir comin. Roedd yr angen i ddod o hyd i atebion ar gyfer grwpiau fel ffermwyr tenant, ffermwyr ifanc a newydd-ddyfodiaid a ffermwyr ar dir comin yn rhywbeth a godwyd gan y Pwyllgor yn gynnar wrth graffu ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru). Felly, byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o wybodaeth am ba newidiadau polisi a champau gweithredu ymarferol sydd ar y gweill neu'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gyda ni ac mewn ymateb i Argymhelliad 6 o'n hadroddiad Bil Cyfnod 1 a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2023.

Diolch i chi am barhau i ymgysylltu â'r Pwyllgor ar y materion pwysig hyn ar gyfer yr economi wledig yng Nghymru ac edrychwn ymlaen at eich ymateb.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig



**Senedd Cymru**  
**Welsh Parliament**

**Tudalen y pecyn 26**

Huw Irranca-Davies AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig  
Llywodraeth Cymru

22 Mawrth 2024

Annwyl Huw,

## Hybu Cig Cymru

Ysgrifennaf mewn ymateb i lythyr a anfonwyd gan Lesley Griffiths AS, eich rhagflaenydd, at Llyr Gruffydd AS ar 15 Chwefror ynghylch Hybu Cig Cymru (HCC).

Mae'r Aelodau wedi ystyried ymateb Lesley. Rydym yn deall ac yn derbyn na all Gweinidog wneud sylw ar fater Adnoddau Dynol parhaus. Fodd bynnag, hoffai'r Pwyllgor gael ei hysbysu ynghylch hynt y 'drefn briodol' y mae HCC yn ei dilyn.

I ddechrau, byddem yn croesawu cael manylion yr amserlen a ragwelir ar gyfer y drefn briodol barhaus. A fydddech cystal â darparu'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl?

Unwaith y bydd drefn wedi dod i ben, byddai'r Aelodau'n awyddus i gael eich barn. Ar yr adeg honno, a fydddech cystal ag ysgrifennu at y Pwyllgor gydag amlinelliad o'r broses ddywededig, y canfyddiadau a'ch barn am y mater? Wedi cael y rhain, bydd yr Aelodau'n penderfynu a yw'r Pwyllgor am fwrw ymlaen â gwaith ffurfiol ar y mater hwn.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.



Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Llyr Gruffydd AS oherwydd ei ddiddordeb yn y mater.

Cofion cynnes,



**Paul Davies AS**

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

CC: Llyr Gruffydd AS



Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith  
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a  
Chysylltiadau Rhyngwladol  
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig  
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol  
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

22 Mawrth 2024

Annwyl Gadeiryddion Pwyllgorau,

### Craffu ar y gyllideb ddrafft

Byddwch yn cofio fy mod wedi ysgrifennu y llynedd yn gwahodd Pwyllgorau i fynegi barn ar welliannau y gallai Llywodraeth Cymru eu gwneud i'r dogfennau mae'n eu cynhyrchu ochr yn ochr â'i Chyllideb Ddrafft ac mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog a ddarparwyd i'r pwyllgorau.

Cafodd eich ymatebion eu hystyried gan y Pwyllgor ar 21 Mehefin 2023 ac wedi hynny ysgrifennais at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) ar 23 Mehefin 2023 yn gofyn am ystyried y pryderon a godwyd cyn rownd cyllideb 2024-25. Roedd rhain yn ymwneud â'r hyn a ganlyn:

- cyhoeddi'r gyllideb ddrafft yn hwyr, gan arwain at broses graffu wedi'i chwtoegi;
- diffyg tryloywder ynghylch effaith y gyllideb ddrafft ar feysydd polisi o fewn cylch gwaith pob Pwyllgor;
- ansawdd isel y dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru;
- ni wnaeth Llywodraeth Cymru ddarparu ymatebion i rai argymhellion gan bwyllgorau cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol.

Codwyd y materion hyn eto yn ystod y gwaith o drafod Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 yn gynharach eleni. Yn ein adroddiad gwnaed yr argymhellion a'r casgliadau a ganlyn gan adeiladu ar y safbwyntiau a fynegwyd yn flaenorol:

***Casgliad 2.** Bydd y Pwyllgor yn ymgynghori â phwyllgorau'r Senedd sy'n ymwneud â chraffu ar y gyllideb cyn cylch cyllideb 2025-26 i gael gwell dealltwriaeth o'r dystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r Gyllideb Ddrafft ac i archwilio ffyrdd o wneud y mwyaf o waith craffu cyllidebol drwy gydol y flwyddyn*

***Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn cyhoeddi papurau tystiolaeth gweinidogion ar yr un pryd â'r Gyllideb Ddrafft er mwyn rhoi eglurder ar y meini prawf a'r blaenoriaethau sy'n sail i benderfyniadau gweinidogion, gyda'r nod o alluogi rhanddeiliaid i gymryd rhan yn y broses graffu yn fwy effeithiol ac yn gynharach yn y broses.*

***Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell, os caiff y Gyllideb Ddrafft ei gohirio eto yn y dyfodol:*

- *bod y Gweinidog a'r swyddogion yn parhau i fynd i sesiwn cyn craffu ar y gyllideb gyda'r Pwyllgor Cyllid; a*
- *bod y Gweinidog yn gweithio gyda'r Pwyllgor Cyllid i nodi dulliau gweithredu a all wella cyfleoedd craffu, gan gynnwys darparu dogfennaeth sy'n ymwneud â'r Gyllideb Ddrafft yn gynharach.*

Derbyniwyd yr argymhellion hyn mewn egwyddor, gyda'r Gweinidog yn amlygu'r anawsterau ymarferol wrth ymateb i faint o wybodaeth y gofynnir amdani gan bwyllgorau unigol, ar yr un pryd â chyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft.

Gofynnwn felly i chi ystyried y materion canlynol, ac i ddarparu ymateb erbyn dydd Gwener 24 Mai 2024.

- Pa welliannau, os o gwbl, ydych chi wedi'u gweld yn y ddogfennaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2024-25?
- Ydych chi wedi nodi unrhyw welliannau pellach y gellid eu gwneud i'r wybodaeth a ddarperir ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft?
- O ystyried yr amser byr sydd ar gael i graffu, pa ystyriaeth, os o gwbl, ydych chi wedi'i rhoi i graffu ar faterion cyllidebol o fewn eich cylch gwaith yn gynharach, er enghraifft ystyried cynllunio strategol tymor hwy, cymryd camau dilynol o ran argymhellion craffu blaenorol neu brosesau penderfynu cyn i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi?



- Mae'r Pwyllgor hefyd yn gweithio ar hyn o bryd gyda'r Gweinidog a rhanddeiliaid eraill i adolygu Protocol Proses y Gyllideb i sicrhau bod prosesau cyllidebol y Senedd yn adlewyrchu arferion a ddatblygwyd yn y Chweched Senedd hyd yma. A oes gennych unrhyw farn am weithdrefnau cyllidebol y Senedd yn ehangach?

Rydym yn ddiolchgar i chi am eich ymgysylltiad parhaus â ni ar y materion hyn ac yn croesawu unrhyw ohebiaeth bellach sy'n ymateb i'r pwyntiau uchod.

Ein nod yw codi'r materion hyn ar ran y Pwyllgorau gyda'r Gweinidog cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau cyllidebol ar gyfer 2025-26 a fydd yn digwydd cyn toriad yr haf.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Mike Wedderspoon

Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Chyflawni Strategol

Banc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban

David Ritchie

Cyfarwyddwr Gweithredol Partneriaethau ac Ymgysylltu

Banc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban

25 Mawrth 2024

Annwyl Mike a David,

## Ymchwiliad i Fanc Datblygu Cymru – cais am wybodaeth yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 21 Mawrth

Roedd yr Aelodau'n ddiolchgar iawn ichi am roi tystiolaeth inni mewn sesiwn ddefnyddiol iawn yr wythnos diwethaf.

Yn dilyn y sesiwn honno, mae'r Pwyllgor yn awyddus i gael rhagor o fanylion am y 31 o fuddsoddiadau y mae Banc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban (SNIB) wedi'u gwneud hyd yma. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn pe gallech ddarparu'r wybodaeth a ganlyn ar gyfer pob un o'r 31 o fuddsoddiadau:

- Y swm a fuddsoddwyd gan SNIB (ynghyd â chyfanswm maint y buddsoddiad os yn briodol)
- Maint y busnes a gafodd y buddsoddiad
- Sector y busnes a gafodd y buddsoddiad
- Nifer y swyddi a gaiff eu creu



Cynhelir sesiynau tystiolaeth lafar olaf y Pwyllgor ar gyfer yr ymchwiliad hwn ddydd Mercher 24 Ebrill. Byddai'n ddefnyddiol, felly, pe gallech ymateb cyn hynny. Os daw eich gwybodaeth i law ar ôl y dyddiad hwnnw, mae'n bosibl y bydd o ddefnydd o ran llywio adroddiad y Pwyllgor beth bynnag.

Diolch eto am roi o'ch amser i ymgysylltu â'n gwaith.

Cofion cynnes,



**Paul Davies AS**

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/5010/24

Paul Davies AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

18 Ebrill 2024

Annwyl Paul,

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor o fy mwriad i roi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Diwygiadau Amrywiol) 2024. ('Rheoliadau 2024').

Rwyf wedi cael llythyr gan y Gweinidog Gwladol dros Fioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid, yr Arglwydd Douglas-Miller, yn gofyn am gydsyniad i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Bydd y Rheoliadau yn rychwantu Cymru, Lloegr a'r Alban ac mae cais tebyg am gydsyniad wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban.

Bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir o dan:

- Erthyglau 72(3), 73(2), 76(4) a 105(6) o Reoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch mesurau i ddiogelu rhag plâu planhigion ("y Rheoliad Iechyd Planhigion"), a
- Erthyglau 22(2), 48(h), 54(3), 77(1), 90 a 144(6), a pharagraff 3(2) o Atodiad 6 i, Rheoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau bod cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael ei chymhwyso, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, cynhyrchion iechyd planhigion a diogelu planhigion ("y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol");

Diben Rheoliadau 2024 yw rhoi ail garreg filltir Model Gweithredu Targed y Ffin ar waith, sy'n dod i rym erbyn 30 Ebrill 2024, i amddiffyn bioddiogelwch a chefnogi masnach rhwng Prydain Fawr a thrydydd gwledydd. Mae'n cyflwyno cyfundrefn fewnforio fyd-eang newydd sy'n seiliedig ar risg ar gyfer nwyddau o'r Undeb Ewropeaidd ("UE") a gweddill y byd ("RoW") o ddiwedd mis Ebrill 2024 ymlaen. Mae'r newidiadau a wneir gan Reoliadau 2024 yn ymwneud â rheolaethau ar fewnforion i Gymru, Lloegr a'r Alban ar gyfer y gyfres o nwyddau a elwir gyda'i gilydd yn nwyddau iechydol a ffytoiechydol ("SPS").

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n eithrio nwyddau sy'n cyrraedd o ynys Iwerddon rhag y gofyniad am wiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol.

Nid yw Rheoliadau 2024 yn ymrwmo Gweinidogion Cymru i fabwysiadu unrhyw safbwynt o eiddo Llywodraeth y DU ar fioddlogelwch yn y dyfodol. Nid yw'r Rheoliadau yn lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd.

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ond yn yr achos hwn, ystyriwyd y byddai'n briodol i'r offeryn hwn fod yn gymwys i Gymru gan nad oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud sy'n gydlynol ac yn gyson, ac yn golygu bod y rheoliadau ar gael mewn un offeryn statudol. Rwyf o'r farn nad deddfu i Gymru ar wahân fyddai'r ffordd fwyaf priodol o roi effaith i'r newidiadau sydd eu hangen, ac na fyddai'n ddefnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru chwaith, o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Rwyf wedi anfon llythyr tebyg at Sarah Murphy AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig  
Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs



## Cyflwyniad

Mae Banc Datblygu Cymru yn darparu cymorth ariannol i ysgogi twf economaidd, arloesi a mentrau busnes, yn aml yn gweithredu yn y bwch marchnad lle nad yw busnesau hyfyw yn cael eu cefnogi gan y sector preifat Rydym yn helpu busnesau uchelgeisiol a gobeithiol yng Nghymru i gael mynediad at gyllid cynaliadwy er mwyn cyflawni eu potensial.

Mae'r cynhyrchion a'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig yn sicrhau mynediad parhaus at gyllid i fusnesau micro i ganolig. Pan fo ffynonellau eraill yn y farchnad yn ymwreiddio, rydym yn ymgymryd â rôl wrth-gylchol ac mae hyn wedi profi'n hanfodol yn yr adferiad economaidd o bandemig Covid-19. Mae ein strwythurau graddfa, sgiliau ac ariannu ariannol yn hanfodol wrth wneud hyn, gan ein galluogi i fod yn hyblyg ac yn hyblyg yn y ffordd yr ydym yn ymateb i'r farchnad.

Rydym yn cynnig ystod eang o opsiynau ariannu, o ficro-fenthyca ar raddfa lai i ddatblygu eiddo ac ecwiti ar raddfa fawr ar gyfer twf. Mae'r ystod hon yn sicrhau y gallwn chwarae rhan hanfodol wrth ddiwallu anghenion parhaus busnes gan gynnwys mynediad at gyfalaf amyneddgar. Mae'r cwantwm a'r hyblygrwydd yn ein cynnig cyllid craidd, yn enwedig drwy Gronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru yn ein galluogi i greu pecynnau cyllid wedi'u teilwra i weddu i anghenion unigol cwsmeriaid, gan eu galluogi i ddechrau a thyfu.

Mae ein hegwyddorion buddsoddi yn sail i sut rydym yn gweithio i gefnogi datblygiad economaidd yng Nghymru. Maent wedi'u cynllunio i gyflawni uchelgeisiau ein cyfrandaliwr, gan ystyried gallu ein gweithrediadau a'n rheoleiddio marchnad.

- Rydym yn gweithredu lle mae methiant yn y farchnad, gan gefnogi cyfle economaidd trwy sicrhau bod cyllid ar gael i fusnesau hyfyw ac ymateb i anghenion y farchnad a chwsmeriaid sy'n esblygu.
- Rydym yn buddsoddi ar delerau masnachol, priso'r buddsoddiad yn deg i adlewyrchu'r risg. Mae hyn yn sicrhau nad ydym yn disodli'r sector preifat. Mae hefyd yn golygu ein bod yn cynhyrchu ffurflenni y gellir eu hailgylchu i gwsmeriaid newydd, gan greu ased gwerth am arian tymor hir i Gymru.
- Gellir dod o hyd i eithriad i'r egwyddor hon mewn sectorau sy'n dod i'r amlwg fel cyllid gwyrdd lle rydym wedi nodi angen i gymell newid.
- Rydym yn fuddsoddw'r amyneddgar, gan ddarparu cyllid hygyrch i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor y busnesau rydym yn eu hariannu.
- Rydym yn cydweithio'n agos â'r sector preifat a chyhoeddus ac yn tyrru i fewn cyd-fuddsoddiad o'r sector preifat lle bynnag y bo modd i gynyddu llif yr arian yng Nghymru.

- Rydym yn buddsoddi am effaith ariannol gadarnhaol ac anariannol yn y cymunedau rhanbarthol rydym yn eu gwasanaethu. Mae ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu wedi'u gwreiddio'n gymesur yn ein penderfyniadau buddsoddi.
- Rydym yn fuddsoddwr cyfrifol, sy'n darparu gwasanaethau arbenigol, annibynnol ar reoli buddsoddiadau. Mae ein tîm profiadol yn ychwanegu gwerth at y busnesau rydym yn gweithio gyda nhw, ar gyfer bywyd y berthynas.

Er bod y galw yng Nghymru yn parhau i fod yn bennaf ar gyfer cyllid sy'n seiliedig ar ddyled, rydym yn datblygu'r farchnad trwy annog busnesau addas i ystyried tegwch fel llwybr i sicrhau twf. Rydym wedi gweld y galw am ecwiti yn amrywio ers lansio'r Banc Datblygu gan adlewyrchu'r awydd am y math hwn o gyllid.

Rydym yn defnyddio Cyfalaf Trafodiadau Ariannol ("FTC") ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r cyfyngiadau sy'n cyd-fynd â FTC yn golygu mai'r Banc Datblygu yw un o'r ychydig gyrff cyhoeddus a all ddefnyddio'r cyllid hwn, gan leihau'r pwysau ar Gyfalaf Cyffredinol. Gallwn strwythuro'r cyllid o fewn modelau ariannu ad-daladwy i'r farchnad breifat sy'n bodloni'r amodau a osodwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Ar hyn o bryd rydym yn buddsoddi tua £1.3 biliwn o FTC ar draws ein cyfres o gynnyrch.

Ochr yn ochr â'n cynhyrchion dyled ac ecwiti craidd, rydym hefyd yn cefnogi Llywodraeth Cymru i ddarparu nifer o wasanaethau buddsoddi arbenigol gan gynnwys dros £700m drwy'r cynllun Cymorth i Brynu - Cymru a dau gynllun cymorth i berchnogion tai - y Cynllun Cymorth i Lesddeiliaid a Cymorth i Aros, i gwsmeriaid sydd mewn trafferthion o ganlyniad i faterion diogelwch tân neu effeithiau costau byw yn y drefn honno.

Ar ben hynny, rydym yn darparu gwasanaethau rheoli portffolio ar gyfer rhai o fuddsoddiadau strategol Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r Grŵp Cymorth Adferiad, sy'n cynnig mynediad at arbenigedd ar gyfer busnes mewn anhawster a allai gynnwys cymorth ariannol os yw'n briodol.

Mae'r Banc Datblygu yn gwneud hyn trwy fodel busnes unigryw nad oes angen 'grant mewn cymorth' gan y llywodraeth ar gyfer costau gweithredol. Mae ein heconomiâu graddfa (gyda chymorth ffocws parhaus ar effeithlonrwydd gyda budd technoleg well) yn caniatáu ar gyfer darparu cost effeithiol a ariennir gan enillion ar yr arian sy'n cael ei reoli, gyda'r gallu i ailgylchu cyfalaf yn ôl i'r economi dros y tymor hwy.

Yn bwysig, rydym yn cynnal presenoldeb rhanbarthol cryf ac mae cwsmeriaid a rhanddeiliaid yn elwa o berthnasoedd lleol gyda phobl sydd wedi'u hymgorffori mewn cymunedau ledled Cymru gyfan. Mae adborth gan rhanddeiliaid drwy ein harolygon cwsmeriaid yn dweud wrthym fod gweithio i ddod o hyd i atebion sy'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol, a'n dealltwriaeth o ddeinameg economaidd rhanbarthol yr un mor werthfawr â'r cyllid a gynigiwn.

## **Perfformiad**

Mae perfformiad yn erbyn cynlluniau corfforaethol a phob un o'r cynlluniau gweithredol blynyddol ategol wedi'u hamlinellu'n fanwl o fewn adroddiadau blynyddol cyhoeddedig ac mae wedi bod yn destun craffu blynyddol gan bwyllgorau'r Senedd. Crynhoir alldro pennawdol yn erbyn targedau'r llinell uchaf isod.

Rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr yn Nhîm Partneriaeth Banc Datblygu Cymru o fewn Llywodraeth Cymru i osod targedau ac amcanion a ragwelir ar draws camau pum mlynedd ar gyfer pob cynllun corfforaethol. Mae targedau yn seiliedig ar broffiliau buddsoddi'r cronfeydd sydd i'w fuddsoddi yn ystod y cyfnod hwnnw.

Y prif darged yw'r buddsoddiad sydd i'w gyflawni gyda thargedau canlyniadau economaidd cysylltiedig wedi'u gosod yn erbyn y cymysgedd o gynhyrchion a broffiliwyd yn y cyfnod fel cyd-fuddsoddi, swyddi a grëwyd ac a ddiogelir, cartrefi wedi'u hadeiladu a troedfedd sgwâr o eiddo masnachol.

Mae cyflawni targedau dros bum mlynedd yn cael ei ddylanwadu gan dri ffactor. Yn gyntaf, gweithgaredd y Banc Datblygu wrth hyrwyddo'r cyllid sydd ar gael ynghyd â'r cymysgedd o'r cynhyrchion penodol a gynigir i'r farchnad mewn cyfnod penodol. Yn ail, yr amodau economaidd cyffredinol sy'n effeithio ar hyder busnesau sydd yn ei dro yn siapio'r galw, neu chwyddiant sy'n siapio metrigau megis creu swyddi neu fesurau eiddo. Yn olaf, archwaeth risg credyd benthycwyr a buddsoddwyr eraill sy'n pennu cystadleuaeth y farchnad ac yn siapio cyd-fuddsoddiad.

Mae'r ansicrwydd economaidd o ganlyniad i newid rheoleiddio yn dilyn Brexit, adferiad ôl-covid a'r argyfwng costau byw mwy diweddar, wedi creu marchnad gyfnewidiol sydd wedi herio'r ffordd rydym yn gweithio. Yn y pen draw, mae ein rôl i ddarparu hylifedd yn bwysicach fyth mewn amgylchedd heriol, yn enwedig pan fo benthycwyr a buddsoddwyr traddodiadol yn newid eu chwant risg. O ystyried y cyfrifoldeb pennaf hwn, ein prif amcan yw dod o hyd i ateb boddhaol yn fasnachol i'r cleient p'un a yw hyn yn gwella ein mesurau KPI cyffredinol ai peidio.

Un gwrs o'n cynllun corfforaethol cyntaf ac a adlewyrchir yn yr ail, yw'r effaith y mae mwy o weithgarwch datblygu eiddo wedi'i chael yn erbyn rhai mesurau canlyniadau. Mae'r gweithgaredd hwn yn ysgogi ystod ehangach o fesurau effaith fel cartrefi a adeiladwyd. Mae benthycwyr eraill wedi ymsefydlu i ffwrdd o gefnogi datblygiad hapfasnachol ac fel arfer mae'r buddion economaidd cadarnhaol y cronfeydd hyn mewn gwaith is-gontractio ac eiddo masnachol newydd y mae mawr ei angen. Mae gwaith ar y gweill i adolygu'r mesurau hyn a mesurau eraill yn unol â'r ffordd y mae

sefydliadau sector cyhoeddus eraill yn olrhain ac yn sicrhau bod y gwir werth yn cael ei gynrychioli ac nid yw'n cael ei danddatgan.

#### Cyflawniad pennawdol KPI

	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	Total
Cyfanswm yr effaith economaidd (£'m)	212	280	251	330	228	258	1,563
Buddsoddiad uniongyrchol (£'m)	68	80	103	205	110	124	694
Cyd-fuddsoddiad (£'m)	70	126	76	60	64	114	510
Swyddi wedi'u creu a'u diogelu	3,909	3,660	3,964	19,347	3,540	4,669	39,089
Unedau tai	220	285	322	403	223	191	1,644
Safle masnachol (troedfedd sgwâr)	28,977	20,204	29,601	70,892	73,350	67,407	290,431
Busnesau a gefnogwyd	285	352	391	1,696	468	435	3,627
Cymorth i Brynu - Cymru (£'m)	74	74	72	65	54	20	359

#### "Banc Datblygu Cymru - ased strategol ar gyfer Cymru fwy llewyrchus"

Cyhoeddwyd y prosiectws hwn ym mis Gorffennaf 2017 cyn lansio'r Banc Datblygu. Ei nod oedd amlinellu uchelgeisiau'r sefydliad cyn rhyddhau'r Cynllun Corfforaethol a'r amcanion pum mlynedd manylach.

Mae amcanion y ddau yn aros yr un fath ac rydym wedi cyflawni'r uchelgeisiau canlynol:

- Sicrhau bod mwy o arian ar gael i fusnesau Cymru sydd wedi cynyddu o £700 miliwn yn 2017/18 i £1.2 biliwn ym mis Mawrth 2024.
- Datblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd gyda 15 wedi'u lansio ers 2017.
- Cynnig pecynnau ariannol wedi'u teilwra ochr yn ochr â chymorth perthynas cwsmeriaid.

- Sefydlu Dirnad Economi Cymru, uned ymchwil a lanswyd yn 2018.
- Symud ein pencadlys i Wrecsam ac ehangu ein presenoldeb corfforol ar draws Cymru.
- Rhagori ar yr ymrwymiad penodol i gynyddu ein gallu ar gyfer micro-fenthyca pwrpasol o gronfa £6 miliwn i £40 miliwn. Wedi'i gyflawni drwy godi £42m pellach ar gyfer cyfanswm cyfleuster benthyca o £48m. Mae'r cronfeydd hyn wedi rhoi contractau allanol i arbenigwyr mentrau cymdeithasol i sicrhau bod gan y sector hwn fynediad at gyllid ac mae ein perthynas waith â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru dros y cyfnod hwn wedi bod yn gadarnhaol.
- Cadw ffocus ar 'ficrofusnesau' sydd wedi ffurfio dros 88% o'r busnesau a gefnogwyd a 55% o'r gwerth.

### **Cynllun corfforaethol 2017/22**

Roedd y cynllun corfforaethol pum mlynedd cyntaf ar gyfer y Banc Datblygu yn canolbwyntio ar adeiladu ein brand, graddfa ac ehangder y banc. Yn gosod sylfeini tymor hir ar waith, datblygu partneriaethau ac arferion gwaith newydd megis ymgorffori ein dull buddsoddi effaith gynnar, sy'n cyd-fynd â Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenedloedd Unedig. Mae hyn wedi llywio ein blaenoriaethau, gan ein galluogi i adeiladu cyfres o gynhyrchion a gwasanaethau gwell sydd wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion parhaus marchnad Cymru.

### **Llythyr cylch gwaith 2021**

Mae llythyr cylch gwaith 2021 yn sail i'n cynllun corfforaethol ar gyfer 2022/27.

Rydym yn croesawu'r cam gan y Gweinidog tuag at gynllunio tymor hwy, sy'n cyd-fynd â thymor y llywodraeth, gan gydnabod realiti datblygu a gweithredu'r cynlluniau corfforaethol a blynyddol tra'n cynnal lefel y sefydlogrwydd sy'n angenrheidiol i gynnal hyder y farchnad a chyflawni ein rhwymedigaethau rheoli cronfeydd.

Mae'r llythyr cylch gwaith yn tasgu'r Banc Datblygu gyda bodloni disgwyliadau uchel ac uchelgeisiau Gweinidogion o fewn Llywodraeth Cymru a dyma'r prif fecanwaith sy'n alinio ein strategaeth gorfforaethol â pholisi datblygu'r economi. Mae'r rhain wedi'u grwpio'n fras yn saith thema ac mae cynnydd pennawd yn erbyn pob un yn cael ei grynhoi yn Atodiad 1 gyda rhagor o fanylion ar gael ym mhob adroddiad blynyddol.

### **Cynllun corfforaethol 2022/27**

Mae ein hamcanion ar gyfer y cynllun corfforaethol presennol wedi symud ymlaen i ganolbwyntio ymhellach ar ein heffaith a'n rôl fel buddsoddwr cyfrifol trwy nodau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu gwell. Rydym yn parhau i hwyluso diwylliant entrepreneuriaidd yng Nghymru, gan sicrhau dros £258 miliwn o effaith economaidd yn y flwyddyn gyntaf.

Rydym yn datblygu atebion ariannol newydd gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi'r blaenoriaethau a osodwyd gan y Gweinidog yn y Genhadaeth Economaidd, cynlluniau pontio Sero Net a gofynion tai

ar ôl lansio pedwar cynllun newydd yn y cyfnod. Mae'r mentrau y gall y Banc Datblygu eu cyflawni, yn enwedig ar adeg o bwysau cynyddol ar gyllid y sector cyhoeddus, yn cynnig opsiynau cost-efeithiol i'r llywodraeth trwy strwythurau ad-daladwy (heb fod yn grant). Credwn ei bod yn hanfodol ystyried strwythurau cyllido hybrid ac opsiynau cyfalaf amyneddgar yn erbyn yr holl anghenion cyllido er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o werth o bob punt o gyllid y sector cyhoeddus, gan ei alluogi i fynd ymhellach.

Mae mesur safon diwydiant i olrhain teyrngarwch a boddhad cwsmeriaid wedi'i gyflwyno, yr ydym hefyd yn ei ddefnyddio i fesur ac olrhain ymgysylltiad gweithwyr. Mae Sgôr Hyrwyddwr Net ("NPS") yn gofyn un cwestiwn - pa mor debygol yw cwsmer neu weithiwr i argymhell busnes. Mae'r ffocws clir hwn ar eiriolaeth yn adlewyrchu diwylliant ein sefydliad sy'n hyrwyddo boddhad cwsmeriaid ac enw da o'r pwys mwyaf. Mae olrhain y mesur hwn, ochr yn ochr â llwybrau adborth cwsmeriaid eraill, yn cefnogi ein dealltwriaeth o deimlad cwsmeriaid yn gyfoes.

### **Alinio â strategaeth datblygu economaidd a'r ecosystem cymorth busnes ehangach**

Fel y trafodwyd uchod, y llythyr cylch gwaith yw'r prif fecanwaith y mae gweinidogion yn alinio blaenoriaethau'r Banc Datblygu â pholisi a strategaeth y llywodraeth a chrynhair cynnydd ymhellach yn Atodiad 1. Er nad yw craidd ein cenhadaeth i ddarparu cyllid i fusnesau hyfyw na fyddent fel arall yn gallu codi cyfalaf wedi newid, mae'r themâu yn y llythyr cylch gwaith a pholisiau ehangach y llywodraeth yn llywio ein gweithgaredd mewn sawl ffordd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Datblygu cronfeydd a gwasanaethau i fynd i'r afael â sectorau penodol fel Cronfa Twristiaeth Cymru neu segmentau fel datgarboneiddio.
- Gweithgaredd sy'n ysgogi archwaeth y farchnad fel ar gyfer buddsoddi ecwiti.
- Newidiadau i'r ffordd yr ydym yn datblygu ac yn asesu cynigion buddsoddi newydd fel ceisiadau gan entrepreneuriaid iau.

### **Rhaglen Lywodraethu**

Cymuned, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol yw'r gwerthoedd sy'n sail i'r Rhaglen Lywodraethu (PfG) ac sydd wedi'u hymgorffori o fewn amcanion y Banc Datblygu. Mae gweithgarwch yn mynd i'r afael â nifer o feysydd polisi'r llywodraeth, megis adeiladu cartrefi newydd, ysgogi creu swyddi, cynhwysiant ariannol grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, datgarboneiddio a phrosiectau ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned.

Mae dau faes allweddol yn y PfG sy'n cyfeirio at weithgarwch buddsoddi masnachol:

### **Ehangu cronfeydd cyfalaf amyneddgar**

Ers dechrau'r tymor hwn o lywodraeth, rydym wedi ymestyn cwantwm cyfalaf cleifion o £30 miliwn y flwyddyn i dros £46 miliwn y flwyddyn gan gynnwys ymestyn y tymor uchaf ar gyfer cyllid dyled i hyd at 15 mlynedd.

### Cynyddu'r defnydd o gyfrannau ecwiti mewn cymorth busnes

Fel y buddsoddwr ecwiti mwyaf yng Nghymru ac un o'r rhai mwyaf gweithgar yn y DU (350 o fuddsoddiadau rhwng 2013 a 2022) rydym a'r gallu i gefnogi busnesau technoleg arloesol, cwmnïau sydd â chynlluniau twf uchelgeisiol ac ecwiti i gefnogi trafodion olyniaeth. Rydym yn monitro'r buddsoddiad hwn ar gyfartaledd treigl tair blynedd i helpu i gyfrif am yr anwadalrwydd yn y galw am degwch yn y rhanbarth. Yn ystod tymor presennol y llywodraeth, bu cynnydd o tua 12% mewn darparu ecwiti (ar gyfartaledd treigl tair blynedd), ar gyfartaledd o £15.5m y flwyddyn.

### Cenhadaeth Economaidd (Gwydnwch ac Ailadeiladu)

Adlewyrchir y pedair blaenoriaeth genedlaethol o fewn y Genhadaeth Economaidd wedi'u diweddarau yn ein cynllun corfforaethol. Er enghraifft, mae cyd-fynd â Blaenoriaeth 2 sy'n nodi uchelgais ar gyfer pobl ifanc, wedi arwain at ddull diwygiedig o asesu ceisiadau am gyllid gan entrepreneuriaid iau a chynnydd yn y swm a fuddsoddiwyd gennym mewn busnesau gyda chyfarwyddwr neu berchennog o dan 30 oed o £4m wrth lansio i £17m yn 2022-23, gan dreblu nifer yr unigolion a gefnogir. Mae Blaenoriaeth 1 yn canolbwyntio ar drawsnewidiad cyfiawn a ffyniant gwyrdd ac ers 2022 rydym wedi lansio dau gynllun gwyrdd, wedi dod yn llofnodwyr Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol a gefnogir gan y Cenhedloedd Unedig ac wedi ymuno â'r Bartneriaeth ar gyfer Ariannoldeb Cyfrifeg Carbon.

### Cyllid arloesol a darparu gwasanaethau

Ers 2017 rydym wedi gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu a lansio 15 cronfa newydd. Mae pob un o'r mentrau hyn yn cefnogi amcanion polisi yn uniongyrchol ac yn enghraifft o allu'r Banc Datblygu i gyflawni'n llwyddiannus yn erbyn cylch gwaith eang.

<b>2017/18</b>	Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru - £500 miliwn
<b>2018/19</b>	Cronfa Cyd-fuddsoddi Angel Cymru - £8 miliwn Cronfa Hunanadeiladu Cymru - £40 miliwn Cronfa Sbarduno Technoleg Cymru II- £20 miliwn
<b>2019/20</b>	Cronfa Datblygu Eiddo Masnachol Cymru - £55 miliwn Cronfa Buddsoddi Twristiaeth Cymru - £50 miliwn Cronfa Safleoedd Segur Cymru - £55 miliwn Cronfa Micro Fenthyciadau Cymru - £30 miliwn Cronfa Olyniaeth Rheoli Cymru - £25 miliwn
<b>2020/21</b>	Cronfa Benthyciadau Busnes Covid Cymru - £92 miliwn Cronfa Achub ac Ailstrwythuro Cymru - £25 miliwn



<b>2021/22</b>	Cronfa Canol y Dref - £2.5 miliwn Cymhelliant Cartrefi Gwyrdd - £15 miliwn
<b>2022/23</b>	Cynllun Cymorth i Lesddeiliaid - mae'r galw'n cael ei arwain. Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd - £10 miliwn
<b>2023/24</b>	Cynllun Cymorth i Aros (Cymorth Morgeisi) - £11 miliwn

### **Perthynas â gwasanaethau cymorth busnes**

Rydym yn cydnabod bod perthynas symbiotig rhwng cyllid a gwasanaethau cymorth busnes yn effeithiol wrth feithrin economi entrepreneuriaid fywiog. Mae nifer o fodelau llwyddiannus yn bodoli p'un a ydynt yn cael eu darparu gan un corff neu luosog, ac mae gan bob un gyfleoedd a risgiau cynhenid.

Beth bynnag fo'r model cyflenwi penodol, mae cydweithio'n hanfodol wrth gydnabod y gall cyllidwyr a gwasanaethau cynghori fesur llwyddiant yn wahanol.

Ein dull bob amser yw ceisio meithrin ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid yn yr ecosystem trwy gyfathrebu sut y gallwn helpu'n glir ac yn gyson. Rydym yn gweithio'n agos gyda Busnes Cymru, gan ei gwneud yn haws ac yn symlach i fusnesau gael gafael ar gymorth ochr yn ochr â chyllid. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd drwy gysylltiadau strategol a gweithredol ac mae Busnes Cymru yn parhau i fod yn ffynhonnell fwyaf blaenllaw o atgyfeiriadau bargaen ar gyfer y tîm micro-fenthyciad.

Er nad yw'r Banc Datblygu yn darparu gwasanaethau cymorth, rydym yn cefnogi cwmnïau portffolio i lywio'r ecosystem cymorth busnes ehangach a chynnig gweithdai a seminarau arbenigol wedi'u targedu ac, mewn rhai achosion, mynediad at wasanaethau ymgynghori a ariennir yn rhannol.

### **Yr economi werdd**

Yn unol â llythyr cylch gwaith tymor y llywodraeth ac uchelgeisiau ein cynllun corfforaethol, rydym yn ymgymryd â rôl weithredol wrth gefnogi'r broses bontio i economi carbon isel yng Nghymru. Yn 2022 fe wnaethom osod ein haddewid twf gwyrdd ac yn 2023 fe wnaethom recriwtio rheolwr cynaliadwyedd pwrpasol i arwain ein gwaith trwy'r maes hwn sy'n esblygu.

Fel buddsoddwr cyfrifol, ein rôl ni yw cynorthwyo busnesau wrth iddynt lywio cyfleoedd a heriau sero net, gan weithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gyfrannu'n llawn at yr ecosystem ar gyfer gweithredu gwyrdd yng Nghymru. Byddwn yn gweithio gyda'r offer sydd ar gael i ni i barhau i dargedu effaith datgarboneiddio, ond rhaid nodi bod cymhelliant yn dod ar gost ac mae'r gallu i symud ymlaen â'r holl gyfleoedd yn y maes hwn yn cael ei gyfyngu gan argaeledd cyllideb a thriniaeth gyfrifyddu.

Rydym wedi integreiddio ystyriaethau Amgylcheddol Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG) wrth cytuno buddsoddiadau er mwyn sicrhau bod y cyllid cyhoeddus a reolir gennym yn bodloni safonau a



blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn datblygu gweithgareddau stiwardiaeth ar draws ein portffolio buddsoddi i gefnogi ein cwsmeriaid i wireddu manteision pontio i arferion mwy cynaliadwy.

Rydym yn datblygu ein stiwardiaeth ar draws ein portffolio i gyd-fynd ag anghenion ein cwsmeriaid, o fargeinion ecwiti twf i ficro-fenthyciadau. Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar gefnogi ein cwsmeriaid i integreiddio ystyriaethau ESG yn eu cynllunio busnes, cyfeirio at wasanaethau cymorth cynghori, adnoddau a buddsoddiad pellach lle bo angen.

### **Cynlluniau byw**

**Buddsoddiad datgarboneiddio i fusnesau** - Ym mis Chwefror 2023, lanswyd y Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd sy'n cyfuno mynediad at ymgynghoriaeth sero net trwy Busnes Cymru neu wasanaethau eraill gyda phecyn ariannol ar gyfer prosiectau effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio. Mae cyfanswm y cynnig yn cynnwys gwyliau ad-dalu, cyfraddau llog gostyngol a chyfalaf cleifion gan wneud datgarboneiddio yn fforddiadwy.

**Cynlluniau cymhelliant i ddatblygwyr BBaCh** - Yn 2022 lanswyd y Cymhelliant Cartrefi Gwyrdd sy'n cynnig gostyngiadau ar gost benthyca i adeiladwyr tai BBaChau gan ddefnyddio dulliau modern o adeiladu/adeiladu carbon isel.

**Cymorth ynni cymunedol** - Rydym hefyd yn rheoli'r Gronfa Ynni Lleol sy'n cefnogi busnesau bach a chanolig a grwpiau cymunedol gyda phrosiectau ynni adnewyddadwy rhanbarthol ar raddfa fach. Mae'r cynllun hwn yn cynnig cyfalaf tymor hir gyda chymorth technegol a grant pwrpasol lle bo angen.

### **Mewn datblygiad**

**Ôl-ffitio tai** - Rydym yn gweithio gyda thîm Llywodraeth Cymru o fewn Cartrefi a Lleoedd i sefydlu cefnogaeth i berchen-feddianwyr gael mynediad at becyn ariannu i gefnogi gweithredu mesurau datgarboneiddio.

**Ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr** - Rydym yn gweithio gyda sawl trydydd parti i sefydlu anghenion cymorth wrth strwythuro trefniadau cyllido ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr.

### **Buddsoddiadau ecwiti**

Mae Banc Datblygu Cymru yn buddsoddi ecwiti mewn i ystod amrywiol o gwmnïau ar draws camau busnes trwy sbarduno a chyfnod cynnar i Gyfres A a thu hwnt. Mae ein buddsoddiadau'n amrywio o gyllid sbarduno o £25,000 i gefnogi cwmnïau cyfoethog IP cyn-refeniw i fasnacheiddio technoleg newydd, hyd at £10 miliwn ar gyfer busnesau sy'n tyfu uchelgeisiol.

